# Cymraeg

### Neges Heddwch ac Ewyllys Da gan ieuenctid Cymru i ieuenctid y Byd

Mewn undod mae nerth.
Mae'n gyfrifoldeb arnom ni i gyd fel dinasyddion i greu a chynnal cymdeithas sy'n cydweithredu ac mae'n ddyletswydd arnom ni i gefnogi ein cyd-ddyn a pheidio â throi llygad ddall i broblemau'r byd.
O gariad, daw dyngarwch.
Gadewch i ni gefnogi cymunedau yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol i orchfygu unbennaeth.Drwy wneud hyn, gallwn ddileu hunanoldeb, annhegwch ac anghydraddoldeb. Mae angen i ni ymdrechu mewn cariad i ddatrys yr holl rwystrau sy'n llygru a difetha ein perthynas â'n gilydd fel cenhedloedd y byd.
Nid trwy'r unben y ceir tegwch.
Gadewch i ni agor ein breichiau a chydweithio er mwyn creu byd tecach a mwy cyfiawn.Masnachu'n deg rhwng y gwledydd yw'r ffordd ymlaen.
Rhoi a chael: egwyddor person hael.
Gadewch i ni ieuenctid Cymru felly annog ieuenctid y byd i greu cymuned fyd-eang. Mae gennym ni i gyd gyfrifoldeb i lafurio'n ddiwyd mewn cariad ac amynedd i helpu ein gilydda hynny mewn modd ymarferol.
Mewn undod mae nerth.

**Lluniwyd gan ieuenctid o ysgolion y Preseli a Bro Gwaun**